Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid
FIN(4)-WG15-06
Ymchwiliad i Gynigion ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2014-2015
Tystiolaeth Gan ColegauCymru

# Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2014/15

**Tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid**

**Medi 2013**

ColegauCymru
Uned 7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB
Ff: 029 2052 2500
E: helo@colegaucymru.ac.uk
W: www.colegaucymru.ac.uk

CollegesWales
Unit 7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
T: 029 2052 2500
E: hello@collegeswales.ac.uk
W: www.collegeswales.ac.uk

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r papur hwn yn gosod achos cryf i Lywodraeth Cymru gynnal y lefel arfaethedig o gyllid i golegau addysg bellach (AB) yng Nghymru.

Mae ColegauCymru yn annog Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru i:

- gydnabod diben deublyg colegau: hybu cyfiawnder a chynhwysiant cymdeithasol a chefnogi economi hyfyw
- deall mai colegau yw prif ddarparwyr addysg alwedigaethol a thechnegol yng Nghymru yn ogystal â darparu rhaglenni academaidd o ansawdd uchel
- cydnabod cyfraniad allweddol dysgu oedolion a dysgu parhaus i fynd i'r afael â chymdeithas ddifreintiedig
- sicrhau bod penderfyniadau ar gyllid colegau yn deg ac nad yw colegau dan anfantais o gymharu â sectorau eraill
- cydnabod bod cyllid Llywodraeth Cymru i golegau yn fuddsoddiad hirdymor allweddol sy'n arwain at enillion go iawn ym mywydau unigolion ac i economi Cymru
- parhau â chylch cyllido tair blynedd newydd i alluogi'r colegau i gynllunio'n effeithiol, ond gan gydnabod y gall ffactorau allanol ddylanwadu ar benderfyniadau terfynol ar gyllid
- cynnal cyfalaf cynnal a chadw ar o leiaf y lefel a ddyrannwyd yn 2011/12, hynny yw £6.5m, i sicrhau bod adeiladau'n parhau'n addas i'r diben
- cynnal cronfeydd ariannol wrth gefn ar lefel 2011/12 o £7m i alluogi'r colegau i gynorthwyo dysgwyr difreintiedig a chynnal cyllid ar gyfer lwfansau cynhaliaeth addysg a grantiau dysgu'r cynulliad
- cynnal y nawdd cynorthwyol sy'n cefnogi dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu
- cynnal y buddsoddiad mewn prentisiaethau a thrafod gyda ColegauCymru ynglŷn â sut i ddefnyddio unrhyw gyllid nad ydynt wedi'u hymrwymo yn llawn
- pennu cyllid rheolaidd y colegau yn 2014/15 ar yr un lefel ag a osodwyd yn wreiddiol ar gyfer 2013/14, hynny yw cynnydd o o leiaf 1% o arian parod o gymharu â 2012/13. Byddai hyn yn **lleihad mewn termau real o tua 6%**[1] o'i gymharu â 2012/13, ac yn gyfran deg o leihad mewn cyllid o du'r colegau, gan ystyried bod Llywodraeth Cymru yn gorfod cyrraedd ei thargedau gwariant llym sy'n cael eu harwain gan y Trysorlys.

---

[1] Roedd chwyddiant yn 2.8% yn Awst 2013 (Y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol). Gan dybio y bydd y lefel hwn yn parhau, bydd chwyddiant wedi cynyddu gan 5.6% erbyn Awst 2014 a chan 8.4% erbyn Awst 2015. Y man canol rhwng 5.6% a 8.4% yw 7.0%. Mae cynnydd o 1% yn gadael 6%.

**Yn gyfnewid am y buddsoddiad hwn gan Lywodraeth Cymru, bydd y colegau AB yn**

- cyflenwi rhaglenni galwedigaethol ac academaidd o ansawdd uchel ac yn parhau i wella safonau
- cydweithio'n agos â byd busnes i wella lefelau sgiliau er budd economi Cymru
- darparu cymorth arbenigol i fyfyrwyr difreintiedig a hybu adfywiad economaidd
- cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i gyflenwi ei rhaglen addysg a hyfforddiant uchelgeisiol.

## Cyflwyniad

1. Mae ColegauCymru yn cynrychioli'r 16[2] o golegau addysg bellach (AB) a sefydliadau AB yng Nghymru.[3] Yn 2011/12, roedd 214,850 o fyfyrwyr unigol yn mynychu coleg ac roedd 229,615 o gofrestriadau.[4] Yn 2011/12 roedd gan y colegau drosiant o £462m, gyda buddsoddiad o £365m (79% o gyfanswm yr incwm) gan Lywodraeth Cymru – gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith a mathau eraill o gymorth ariannol.

2. Mae'r colegau AB wedi ymateb yn gadarnhaol i agenda Trawsnewid Llywodraeth Cymru ers 2009 ac mae cyfanswm nifer y colegau wedi lleihau o 25 i 16. Mae cynlluniau pellach i uno ar y gweill.

3. Yn y cyd-destun ariannol anodd presennol, mae angen ystyried bod cyllido colegau yn fuddsoddiad hirdymor i wella cyfleoedd bywyd unigolion a gallu economi Cymru i gystadlu yn economaidd. Mae'r papur hwn yn dadlau yn gryf y dylai'r colegau AB yn 2014/15 dderbyn, *fan lleiaf*, yr un lefel o gyllid â'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer 2013/14.

## Rôl allweddol colegau AB yng Nghymru

4. Mae gan golegau AB rôl hanfodol i'w chwarae wrth gyflenwi'r sgiliau sydd eu hangen i wneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru. Gellid dweud bod gan golegau ddiben deublyg – hybu cyfiawnder a chynhwysiant cymdeithasol a chefnogi economi hyfyw. Mynegwyd hyn orau yn Adroddiad Humphreys ar Lywodraethu AB[5] a nododd brif ddibenion addysg bellach yng Nghymru (wedi ei gyfieithu isod).

[2] Mae'r 16 yn cynnwys Coleg Harlech / Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (Gogledd); Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (De); Coleg Cymunedol YMCA; a Choleg Merthyr Tudful, Prifysgol De Cymru.
[3] Yn y papur hwn, defnyddir y termau 'coleg AB' a 'choleg' i gwmpasu colegau AB a sefydliadau AB.
[4] *Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru 2011/12 SDR 48/2013,* Llywodraeth Cymru, Mawrth 2013.
[5] *Adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru,* Rob Humphreys, Cadeirydd y Panel Adolygu, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2011.

*"Mae pob un yn cydberthyn i'r lleill, ac mae'r cyfan yn cydblethu i greu defnydd sy'n sefydliadol ac yn sectoraidd ei ffurf sy'n:*

- *darparu dysg o ansawdd uchel drwy amryw ddulliau cyflenwi i alluogi dysgwyr, o 14 oed hyd at oedolion, i gyflawni eu llawn botensial*
- *cefnogi ffyniant economaidd drwy weithio mewn partneriaeth â busnesau, cyflogwyr a defnyddwyr a chwsmeriaid eraill i ddiwallu anghenion hyfforddiant a sgiliau*
- *codi dyheadau cymunedau a dysgwyr, gan oresgyn rhwystrau i barhau mewn addysg neu i ddychwelyd at addysg*
- *annog datblygiad dinasyddion gweithgar, nid yn unig fel gweithwyr medrus, ond drwy feithrin synnwyr ehangach o gyfrifoldeb cymdeithasol*
- *bod yn gyfrwng pwysig a rhagweithiol yn y gwaith o gyd-gynllunio a chyd-ddatblygu llwybrau datblygu di-dor i ddysgwyr 14 oed ac ymlaen*
- *ehangu cyfranogiad drwy gynhwysiant cymdeithasol a pharchu amrywiaeth*
- *cefnogi adfywiad yn eu cymunedau a'u rhanbarthau*
- *cydweithio â phartneriaid, defnyddwyr, cwsmeriaid a Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau canlyniadau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol cadarnhaol i'r gymdeithas ehangach*
- *rhoi buddion y dysgwyr wrth galon pob penderfyniad a wneir".*

5. Oddi mewn i'r dibenion eang hyn, mae'r Gweinidog Addysg yn gosod blaenoriaethau allweddol ar gyfer y sector AB yn flynyddol. Nodwyd y blaenoriaethau ar gyfer 2013/14 mewn llythyr i'r penaethiaid gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau (ar y pryd) ym mis Mai 2013, sef:

- cynnydd a chymorth i ddysgwyr: gwneud y mwyaf o lwybrau datblygu hyd at lefel 3 ac uwch, hyfforddiant a chyflogaeth
- gwella safonau a chyrhaeddiad: sicrhau gwelliannau mewn safonau a pherfformiad, yn arbennig llythrennedd a rhifedd y dysgwyr
- cyswllt â chyflogwyr a menter: creu cyswllt effeithiol â chyflogwyr a datblygu diwylliant o fenter
- datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg: cynyddu'r cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg / dwyieithog sydd ar gael a'r niferoedd sy'n cymryd y cyfleoedd hynny.

## Hybu cyfiawnder a chynhwysiant cymdeithasol

6. Yn ôl arolwg o 15 coleg yng Nghymru a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2013, roedd bron i 37,000 o ddysgwyr yn derbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Grant Dysgu'r Cynulliad neu gymorth o Gronfeydd Ariannol Wrth Gefn y colegau. Mae'r cyllid hwn yn sicrhau nad yw'r rhai sydd arnynt angen cymorth ariannol yn cael eu rhwystro rhag cofrestru ar gyrsiau. Mae gan golegau bron i 500 o blant sy'n

derbyn gofal y maent yn rhoi cymorth arbenigol a phenodol iddynt. Mae rhoi cymorth i'r holl ddysgwyr hyn yn cymryd amser ac yn ddrud ond y mae wrth galon yr hyn y mae colegau yn gwneud. Mae angen cynnal y buddsoddiad i sicrhau y darperir ar gyfer y dysgwyr mwyaf difreintiedig. I ble yr aiff dysgwr os na chaiff ail gyfle? Mae cynnal buddsoddiad yn y dysgwyr hyn yn sicrhau nad ydynt yn dod yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

7. Mwy na thebyg mai colegau sy'n cael yr effaith unigol fwyaf ar leihau niferoedd y rhai sydd yn NEET naill ai drwy fod yn bwynt cyswllt cyntaf i'r bobl ifanc neu drwy fod yn bwynt atgyfeirio cyntaf gan asiantaethau eraill mewn llawer o achosion.

8. Mae i leihau nifer y bobl sydd yn NEET oblygiadau cadarnhaol hirdymor sylweddol i'r economi. Yn ôl gwaith ymchwil i'r Comisiwn Archwilio yn 2010[6] yn Lloegr, cost gydol oes ar gyfartaledd i gyllid cyhoeddus o gael person NEET 16-18 oed (budd-daliadau, a threth ac yswiriant cenedlaethol a gollwyd) yw £56,300. Cost adnoddau gydol oes ar gyfartaledd (colled i'r economi, unigolion a theuluoedd a thangyflogi neu ddiweithdra) yw £104,300. Gyda'i gilydd, mae'r ffigurau yn dod i £160,000 o gostau gydol oes. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 11,500 o bobl 16-18 oed yn NEET yng Nghymru. Yn ôl Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru[7], mae tua 50% or rhai sy'n NEET yn dod o hyd i swydd, addysg neu hyfforddiant, ond mae'r 50% arall yn NEET yn yr hirdymor. Gan dybio bod y ffigur 50% yn dal yn gymwys, cyfanswm posib y gost i'r economi o fod yn NEET yng Nghymru yw tua £600m. Petai colegau yn troi myfyrwyr i ffwrdd a'u bod hwythau wedyn yn dod yn NEET, bydd y gwariant cyhoeddus a ddaw yn sgil hynny yn llawer mwy na'r swm a gaiff ei arbed wrth leihau cyllid colegau.

9. Derbyniodd y colegau gymorth Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn o £7m gan Lywodraeth Cymru yn 2011/12. Cafwyd 17,145 o geisiadau llwyddiannus am gymorth gan fyfyrwyr, ac roedd 88% ohonynt yn fyfyrwyr amser llawn. Y costau uchaf oedd gofal plant a theithio a meysydd allweddol eraill oedd talebau cinio, offer a llyfrau. Gallai pobl 16 oed sy'n dewis aros yn yr ysgol barhau i dderbyn prydau ysgol am ddim (yn dibynnu ar brawf modd). Nid oes cyllid yn benodol ar gyfer prydau ysgol am ddim i fyfyrwyr coleg. Bydd y colegau yn aml yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael i ddysgwyr difreintiedig drwy ailddyrannu arian a enillwyd drwy weithgarwch entrepreneuraidd.

10. Mae colegau hefyd yn derbyn nawdd ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu.  Yn 2012/13 y swm oedd £6.4m. Mae'r nawdd hwn yn cyfrannu at ddarparu cefnogaeth arbenigol ym meysydd megis iaith arwyddo a Braille a chefnogaeth cynorthwyol yn y dosbarth.

---

[6] Bob Coles, Christine Godfrey, Antonia Keung, Steven Parrott a Jonathan Bradshaw *Estimating the life-time cost of NEET: 16-18 year olds not in Education, Employment or Training.* Ymchwil a wnaed i'r Comisiwn Archwilio, Prifysgol Efrog, Gorffennaf 2010.

[7] Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2010.*

11. Yn ogystal â darparu cymorth ariannol ar ffurf grantiau, mae'r colegau hefyd yn cynnig cwricwlwm sydd wedi'i lunio'n benodol i bobl o grwpiau difreintiedig neu agored i niwed – hynny yw, darparu addysg a hyfforddiant yn ogystal â chymorth ariannol. Mae'r ddarpariaeth hon, y gellir ystyried rhywfaint ohoni yn 'aneconomaidd', yn golygu y gall dosbarthiadau gael eu cynnal mewn grwpiau llai, neu y gall dosbarthiadau gael eu cynnal yn y gymuned. Drwy wneud hynny, mae'r colegau yn annog dysgwyr i gymryd at ddysgu lle na fyddent, o bosibl, wedi gwneud hynny yn flaenorol.

12. Yn ychwanegol at hynny, mae'r colegau yn defnyddio cyfran sylweddol o adnoddau i godi lefelau llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, tynnodd Estyn sylw at y gwahaniaethau rhwng oed cronolegol ac oed darllen, ac mae'r colegau yn ceisio gwneud yn iawn am y bylchau hyn. Ym mis Tachwedd 2010, cynhaliodd ColegauCymru arolwg a ddangosodd fod gan 43% o'u myfyrwyr amser llawn newydd lefelau llythrennedd yn is na lefel 1 wrth ddechrau yn y coleg, a'r ffigur cyfatebol yn achos rhifedd lefel 1 oedd 48%. Mae gwella lefelau llythrennedd a rhifedd yn hanfodol i fynd i'r afael â chymdeithas ddifreintiedig.

13. Er bod gofynion cyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth i fyfyrwyr 16-19 oed, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd darparu cyfleoedd i fyfyrwyr dros 19 oed. Mae llawer o bobl 'ail gyfle' na lwyddodd i gyrraedd eu potensial llawn yn yr ysgol yn aml yn elwa'n sylweddol ar y cyfle i ddilyn cyrsiau dysgu oedolion a dysgu parhaus. Mae darpariaeth dysgu oedolion a dysgu parhaus wedi ei thorri'n ôl yn sylweddol wrth i golegau gael eu hannog i ganolbwyntio ar sgiliau sylfaenol, cyflogadwyedd a sgiliau i gyflogwyr.

## Cefnogi Economi Hyfyw drwy Fuddsoddi mewn Sgiliau

14. Mae colegau yn gwneud cyfraniad pwysig i economi Cymru drwy godi lefelau sgiliau yng Nghymru. Mae hyn yn fater o bwys sylweddol gan fod y lefel uwch o ddiweithdra hirdymor yng Nghymru ers y dirwasgiad yn 2008 wedi dinoethi sylfaen sgiliau ein gwlad.

15. Er y rhagolygon economaidd eithriadol o anodd, mae ColegauCymru yn credu bod gan Gymru y cyfle i ailadeiladu ei dyfodol diwydiannol yn seiliedig ar weithlu sy'n gynyddol fedrus wrth i golegau AB ymateb yn gadarnhaol i anghenion byd busnes a diwydiant. Yn ein barn ni, mae nifer o ffactorau allweddol y mae'n rhaid i Gyllideb 2014/15 fynd i'r afael â hwy.

### (i) Parhau i fuddsoddi mewn allbynnau dysgu o ansawdd

16. Fel a nodwyd ym mharagraff 4 (uchod), caiff y nod allweddol hwn ei adlewyrchu yn Llythyr Blaenoriaethau'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar gyfer 2013/14[8] lle y caiff y colegau eu hannog i wella sgiliau eu dysgwyr i lefelau 3 ac uwch a pharhau i wella safonau.

---

[8] *Blaenoriaethau ar gyfer y Sector Addysg Bellach: 2014/15* op cit.

Paul Glaze, Prif Weithredwr, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS):

*“Mae’r sector g*wasanaethau ieuenctid gwirfoddol yn gweithio gyda mwy na *250,000 o bobl ifanc oed 11-15 ac yn darparu oddeutu dwy ran o dair o wasanaethau ieuenctid yng Nghymru.*

*“Mae CWVYS yn cyisdro ei hun yn ffortunus o gael perthynas hynod werthfawr a ffynianus gyda’r Coleg Cymunedol YMCA. Prif rôl y Coleg YMCA yn o beth yw galluogi y sector gwasanaethau ieunectid gwrirfoddol yng Nghymru i godi lefelau sgiliau a chyfrannu cryn dipyn at nodau Llywodraeth Cymru i godi safonau dapariaeth ac arferion y gwasanaeth ieuenctid.*

*“Byddai CWVYS yn annog yn gryf i Lywodraeth Cymru barhau i fuddsoddi yng Ngholeg Cymunedol YMCA ar lefel sy’n gymesur â’i berfformiad rhagorol yn codi lefelau sgiliau ledled Cymru."*

Nia Morris, Rheolwr, Gwasanaethau Ieunectid Gwynedd:

*“Mae Gwasanaethau Ieunectid Gwynedd yn gweithio gyda dros 7000 o bobl ifanc ac mae ganddo 143 o aelodau staff. Mae Coleg Cymunedol YMCA wedi bod yn hanfodol yn codi lefelau sgiliau ein staff a phobl ifanc. Mae 100% o’n staff wedi cymhwyso ar lefel 3, sy’n brawf o’n perthynas gwerthfawr.”*

17. Mae’r gwaith gyda byd busnes wedi parhau i fod yn flaenoriaeth ganolog i’r sector ers llawer o flynyddoedd. Mae bellach gan y rhan fwyaf o golegau gangen fasnachol neu uned fusnes ac yn hyrwyddo eu gwasanaethau i amrywiaeth eang o gyflogwyr. Mae ColegauCymru yn amcangyfrif bod colegau mewn cyswllt â mwy na 25,000 o fusnesau bob blwyddyn ac yn gweithio i ddatblygu cyfres o gynnyrch a gaiff eu dylunio i ddiwallu anghenion cyflogwyr yn y sector preifat a’r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae gwasanaethau o’r fath yn amrywio o waith ar brentisiaethau (ar bob lefel), rhaglenni hyfforddiant pwrpasol i staff, gwaith ymgynghoriaeth, arloesi cynnyrch a chyngor cyffredinol ar anghenion sgiliau eu gweithlu i’r dyfodol. Mae’r colegau bob amser yn ceisio sicrhau bod eu gwaith gyda busnesau yn sionc, ar flaen y gad ac yn addas at anghenion cyflogwyr unigol. *Mae hwn yn nod canolog i golegau yng Nghymru.*

Andy Bilcliff (Pennaeth Hydro UK) RWE npower Ltd:

*“Mae gennym berthynas ragorol â Grŵp Llandrillo Menai. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu cynllun prentisiaeth o’r radd flaenaf i Dechnegwyr Cynnal a Chadw Tyrbinau Gwynt a fydd yn gweithio ar ein gosodiadau ar y tir ac ar y môr yng Ngogledd Cymru. Dyma’r cynllun cyntaf o’i fath yng Nghymru ac mae’r bartneriaeth rhwng RWS a’r Coleg yn rhoi set o sgiliau o’r safon uchaf i’r prentisiaid hyn."*

18. Mae’r Gweinidog yn disgwyl i’r colegau:

- greu cyswllt â’r Ardaloedd Menter
- gweithio mewn partneriaeth â Dinas-ranbarthau i ddeall Gwybodaeth am y Farchnad Lafur a mynd i’r afael â diffygion sgiliau’r rhanbarthau

- ymateb i'r anghenion sgiliau a ddaw yn sgil prosiectau seilwaith mawr yng Nghymru
- sicrhau bod lleoliadau gwaith a chyrsiau ar gyfer busnesau lleol yn seiliedig ar safonau galwedigaethol/proffesiynol priodol neu safonau diwydiant.

19. Er mwyn i'r colegau fwrw ymlaen â'r agenda uchelgeisiol hon, mae gofyn wrth fuddsoddiad parhaus gan Lywodraeth Cymru.

20. Mae buddsoddi mewn colegau yn ffordd arbennig o effeithiol i baratoi cenhedlaeth o bobl ifanc sy'n barod i weithio. Yn ôl *Arolwg Sgiliau Cyflogwyr* diweddaraf ac ar raddfa fawr Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, mae colegau AB yng Nghymru 10% yn well na chweched dosbarth ysgolion Cymru ar baratoi pobl 17-18 oed sy'n gadael addysg. Nododd 75% o gyflogwyr yr arolwg fod rhai sy'n gadael coleg 'wedi eu paratoi'n dda' neu'n well o gymharu â llai na dau draean o'r rhai a nododd hynny am rai sy'n gadael ysgol.[9]

21. Mae'r colegau wedi ymateb i fuddsoddiad Llywodraeth Cymru drwy sicrhau bod yr ansawdd yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn. Fel y nodwyd yn ymateb ColegauCymru i'r Papur Gwyn ar Addysg Bellach ac Uwch[10]:

> *"Mae Prif Arolygydd Estyn wedi rhoi sylwadau cadarnhaol yn rheolaidd ar berfformiad colegau AB yn ei hadroddiadau blynyddol. Yn ôl adroddiad blynyddol yr Adran Addysg a Sgiliau ar ddeilliannau dysgwyr ar gyfer 2010/11, cwblhaodd 90% o'r myfyrwyr eu cyrsiau mewn colegau AB ac o'r rhain llwyddodd 90% ohonynt i ennill eu cymwysterau – sy'n golygu cyfradd lwyddo gyffredinol o 81%. Mae hyn i'w gymharu â 40% yn cwblhau'n llwyddiannus yn 2000/01. Er y cynnydd nodedig hwn, nid yw'r colegau yn llaesu dwylo ac maent yn ceisio gwella'r sefyllfa yn barhaol*."

22. Mae buddsoddi mewn colegau yn arwain at fanteision clir o ran addysg o ansawdd.

**(ii) Buddsoddi mewn sgiliau yn y 'Ras i'r Brig' yn fyd-eang**

23. Mae cynnal buddsoddiad cyhoeddus mewn sgiliau yn y tymor canolig i'r hirdymor yn hanfodol. Mae'r addysg alwedigaethol y mae'r colegau yn ei darparu yn cyfrannu'n sylweddol at gyrraedd nodau uchelgeisiol Cymru yn yr agenda sgiliau. Mae tua 85% o'r cyrsiau (ar lefel 3 neu is) y mae'r colegau yng Nghymru yn eu cynnig yn alwedigaethol neu'n ymwneud â meysydd galwedigaethol. Y colegau felly, o gryn bellter, yw *prif ddarparwyr addysg alwedigaethol a thechnegol yng Nghymru.*

---

[9] Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau: *Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2011: Canlyniadau Cymru,* Adroddiad Tystiolaeth 62, Tachwedd 2012, ffig. 3.1 t.28.

**[10]** *Ymateb i Bapur Gwyn: Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)*. ColegauCymru, Medi 2012.

Mr Huw Roberts, Perchennog, Gwesty Cymru:
*"Mae Gwesty Cymru yn fusnes wedi ei leoli yn Aberystwyth ac yn un sydd yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r iaith Gymraeg. Bu i ni ennill Gwobr Sefydliad Materion Cymreig yn ddiweddar am y defnydd gorau o'r Gymraeg o fewn busnes yng Nghymru. Yr ydym yn gweithio'n agos gyda Choleg Ceredigion er mwyn darparu amrywiaeth o gyrsiau byr a chyrsiau diploma dwyieithog a chyfrwng Cymraeg sydd yn berthnasol i'r lle gwaith ac sydd yn ein galluogi i wella lefel sgiliau ein staff. Trwy wneud hynny mae modd i ni sicrhau twf y busnes tra'n cyfrannu at dwf yr economi leol.*

*"Mae'r bygythiad i gyllid colegau Addysg Bellach yn achos pryder i ni gan y gall unrhyw fygythiad o'r math beryglu'r gwaith gwych sydd yn digwydd ar hyn o bryd. Heb ddarpariaeth hyfforddi Coleg Ceredigion byddai'n anodd i ni barhau i gynnig yr hyfforddiant sydd wedi bod yn sail i adeiladu'r busnes a hefyd yn fodd i ni gyfrannu at dwf yr iaith Gymraeg."*

24. Mae'r angen i ni ddatblygu sylfaen sgiliau er mwyn sicrhau pwyslais o'r newydd ar dwf diwydiannol ac adeiladu yn cael ei ategu'n glir gan dystiolaeth ar ragolygon y galw am lafur yng Nghymru hyd at 2020. Yn ôl amcangyfrifon diweddaraf Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau yn adroddiad *Dyfodol Gwaith*: "*Cymru yw'r unig genedl/rhanbarth [yn y DU] lle y disgwylir i alwedigaethau â chrefftau medrus dyfu o ran cyflogaeth, ac nid gostwng*" a rhagwelir y bydd twf cyflogaeth yng Nghymru: *"yn uwch na chyfartaledd y DU ... yn achos y sector cynradd a chyfleustodau, adeiladu, masnach, llety a thrafnidiaeth*".[11] Mae hyn yn ysgogiad arbennig i fuddsoddi gan ganolbwyntio ar wella sylfaen sgiliau galwedigaethol hanfodol Cymru.

25. Ategir yr ysgogiad hwn gan dueddiadau sylweddol a allai fod yn digwydd yn yr economi fyd-eang yn ehangach. Yn ddiweddar bu i *The Economist* neilltuo rhifyn cyfan i'r hyn yr oedd yn ei alw yn drydydd chwyldro diwydiannol ym maes gweithgynhyrchu ac arloesi gan ddweud bod y chwyldro hwnnw ar ei ffordd.[12] Dwedir bod y rhod ar fin troi'n ôl i'w man cychwyn, wrth i rai swyddi gweithgynhyrchu medrus iawn ddychwelyd i wledydd y gorllewin o Asia yn y degawd nesaf o ganlyniad i gostau llafur ac ynni uwch a'r gwariant ychwanegol ar gludiant wrth ddod â chynnyrch yn ôl i farchnadoedd y gorllewin.

26. Er bod gan y DU ffordd bell i fynd cyn i'w heconomi adfer yn dilyn y dirywiad, bu'r dangosyddion economaidd diweddar yn gadarnhaol. Mae angen i Gymru sicrhau bod ganddi weithlu medrus sy'n barod i fanteisio'n llawn ar unrhyw welliant yn yr economi ac mewn unrhyw 'ras i'r brig' o ran cadwyn werth cynnyrch a gwasanaethau. Bydd hyn yn galw am gnewyllyn o bobl fedrus a hyblyg sydd â *sgiliau lefel ganolradd ac uwch*, yn unol â Llythyr Blaenoriaethau AB y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

27. Mae'r colegau mewn sefyllfa dda i ymateb i'r agenda sgiliau canolradd ac uwch gan eu bod yn darparu amrywiaeth o raglenni o sgiliau sylfaenol ar lefel mynediad i ddarpariaeth ar lefel gradd. O'r herwydd, mae'r colegau yn beiriannau

[11] Crynodeb Llywodraeth Cymru o adroddiad *Dyfodol Gwaith 2010-2010* Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, Rhagfyr 2011, t.1 a 5.
[12] Rhifyn Arbennig o *The Economist*, 21 Ebrill 2012.

creu cyflogadwyedd a dilyniant, ac yn hybu cynhyrchiant y gweithlu yng Nghymru.

**Cyflenwi cymwysterau academaidd**

28. Mae mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn ymgofrestru mewn colegau nag yn chweched dosbarth ysgolion. Mae'r colegau yn cynnig darpariaeth "chweched dosbarth" nad yw'n cael ei chydnabod yn aml gan lawer o wleidyddion. Dyma'r nodweddion allweddol:

- mae'r canlyniadau yn dda iawn – cafwyd perfformiad rhagorol yng nghanlyniadau Uwch Gyfrannol / Safon Uwch 2013 mewn llawer o golegau ac mae'r canlyniadau yn cymharu â chanlyniadau chweched dosbarth yr ysgolion
- mewn llawer o ardaloedd, mae colegau trydyddol yn ehangu'r dewisiadau i'r myfyrwyr ac yn cynnig cymorth arbenigol
- mae ad-drefnu trydyddol yn gosteffeithiol ac yn cynnig ateb mwy effeithlon a thecach na dim ond lleihau cyllidebau ac mae'n gwaredu cystadleuaeth ddiangen am fyfyrwyr 16-19 oed.

**(iii) Buddsoddi mewn chwaraewyr economaidd pwerus sydd â chyswllt uniongyrchol â chyflogwyr**

29. Mae'r colegau yng Nghymru yn chwaraewyr economaidd allweddol ynddynt eu hunain. Bu i Lywodraeth Cymru gomisiynu Prifysgol Caerdydd[13] i ymchwilio i effaith economaidd *gweithgarwch prynu* sefydliadau AB a'u staff a'u myfyrwyr. Mewn gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth yr Alban, gwelir ffrwyth y buddsoddiad ar ffurf *cymwysterau*. O gyfuno'r ddau ddangosydd hwn (a chan gymryd bod effaith economaidd colegau AB yng Nghymru yn gymharol debyg i'r hyn a geir gan golegau AB yn yr Alban), awgrymir bod colegau AB yng Nghymru yn cyfrannu £1.4bn i economi Cymru; ffigur sy'n agos i'r hyn a gynhyrchir gan sefydliadau AU. Bydd y ffigwr hwn wedi cynyddu'n sylweddol ers dyddiad yr astudiaethau hyn.

30. Yn ychwanegol at y cyfraniadau economaidd uniongyrchol a ddaw yn sgil buddsoddi mewn AB, mae'r astudiaethau hefyd yn dangos manteision ychwanegol i'r dysgwyr. Er enghraifft, yn ôl astudiaeth a wnaed yng Nghanada, mae'r manteision i'r myfyrwyr yn cynnwys enillion uwch a gwell ffyrdd o fyw; mae'r manteision i'r trethdalwyr yn cynnwys economi mwy a chostau cymdeithasol is; ac mae'r manteision i'r gymdeithas yn gyffredinol yn cynnwys mwy o gyfleoedd gwaith a buddsoddi, refeniw uwch i fusnesau, mwy o arian cyhoeddus ar gael a llai o bwysau ar y dreth.[14] Mae'r cynnydd mewn cynhyrchiant a ddaw yn sgil gwella lefelau sgiliau a gwaith uniongyrchol y colegau gyda chyflogwyr yn rhoi budd ychwanegol enfawr i'r economi sy'n anos ei fesur – ond mae hyd yn oed yn bwysicach nag allbwn economaidd uniongyrchol y colegau.

---

[13] Llywodraeth Cymru, *Effaith Sefydliadau Addysg Bellach ar Economi Cymru*, Ionawr 2007.

[14] Association of Canadian Community Colleges (2006), *The Economic Contribution of Canada's Community Colleges and Technical Institutes: An Analysis of Investment Effectiveness and Economic Growth*. Dyfynnwyd yn Building a Better Scotland, Strategic Spending Review Submission 2007, Association of Scotland's Colleges, 2007.

31. Mewn astudiaeth gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau[15] edrychwyd ar effaith economaidd AB yn Lloegr gan gwmpasu manteision o ran cyflogau, cyflogaeth a chynnydd mewn cynhyrchiant yn erbyn y buddsoddiad a wnaed drwy gyllid y llywodraeth a ffioedd. Roedd yr astudiaeth yn amcangyfrif Gwerth Presennol Net[16] y cymwysterau a gyllidir gan y llywodraeth ac a ddarperir gan y sector AB ôl-19 gan gynnwys colegau, darparwyr hyfforddiant preifat a darparwyr y sector gwirfoddol a'r sector elusennau.

32. Yn ôl yr astudiaeth, cyfanswm gwariant y llywodraeth yn Lloegr oedd £3.1bn yn 2008/09 gan gwmpasu prentisiaethau ac NVQs seiliedig ar waith a seiliedig gyda'r darparwr ar lefelau 2 a 3 yn ogystal â sgiliau sylfaenol a dysgu datblygiadol. Cyfrifwyd cyfanswm y gwerth economaidd ar Werth Presennol Net o £75bn ar gyfer y sector yn gyfan. Addysg bellach oedd y cyfrannwr mwyaf. Cymhareb y buddsoddiad yn erbyn y manteision economaidd oedd £25 am bob £1 a fuddsoddwyd. **Gan gymryd bod y gymhareb yn debyg yng Nghymru a bod y ddarpariaeth yng Nghymru yn 5% o'r hyn sydd y Lloegr, cawn fod y ffigwr oddeutu £3.8bn o enillion ar fuddsoddiad.**

[15] Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, *Measuring the Economic Impact of Further Education*, Papur Ymchwil Busnes, Arloesedd a Sgiliau Rhif 38 Mawrth 2011.

[16] Caiff y Gwerth Presennol Net ei gyfrifo drwy amcangyfrif manteision gostyngol ennill cymhwyster dros fywyd gweithio'r dysgwr a thynnu'r costau sy'n gysylltiedig ag ymgymryd â'r cymhwyster – mae'r manteision i'r dyfodol yn cynnwys gwell cyflogau a gwell rhagolygon gwaith i ddysgwyr yn ogystal â manteision sy'n 'gorlifo' i unigolion eraill a chyflogwyr; mae'r costau yn cynnwys cyllid y llywodraeth a ffioedd a delir gan unigolion neu gyflogwyr, yn ogystal ag allbwn sy'n cael ei hepgor tra'n dysgu. (BIS, *ibid.* p5).

## Cwestiynau a Ofynnwyd gan y Pwyllgor

**Beth, yn eich barn chi, fu effaith cyllideb Llywodraeth Cymru 2013-14?**

33. Yn y dyraniadau i golegau AB yn 2013/14 a gyhoeddwyd yn mis Chwefror 2013, gwelwyd cynnydd cyffredinol o 1% o gymharu â'r dyraniadau yn 2012/13. Defnyddiwyd y ffigurau hyn gan y cyrff llywodraethu wrth osod eu cyllidebau ar gyfer 2013/14.

34. Yn hytrach na chael cynnydd o 1%, hysbyswyd y colegau yn swyddogol ym mis Gorffennaf 2013 y byddai eu dyraniadau yn lleihau gan 1.5%. Roedd y dyraniad diwygiedig o £310.0m yn cynnwys £284.2m o gyllid prif ffrwd, £8.6m ar gyfer llwybrau at brentisiaethau ac £17.2m ar gyfer sgiliau ychwanegol i oedolion, sef lleihad o £2.4m o gymharu â dyraniadau 2012/13 a thua £5.5m yn llai na'r dyraniadau a gyhoeddwyd i gychwyn[17].

35. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y costau ychwanegol annewisol a ddaw i ran y colegau yn 2013/14 yn £8.9m. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys: y lleihad o £2.4m yn y gwariant o gymharu â 2012/13; tua £3m i dalu am gynnydd cyflogau o 1%[18]; a £3.5m i dalu am gostau cynyddrannau blynyddol. Disgwylir y bydd pwysau eraill yn sgil chwyddiant, fel cynnydd ym mhrisiau ynni a chynnydd disgwyliedig yn y cyfraniadau pensiwn, yn ychwanegu ymhellach at gostau'r colegau.

36. Mae'r cyllid ar gyfer cyfalaf cynnal a chadw'r colegau hefyd wedi lleihau. Derbyniwyd £2.5m yn 2012/13, sef lleihad o £4m o gymharu â 2011/12. Mae parhau i fuddsoddi yn saernïaeth a strwythur adeiladau yn hollbwysig i sicrhau bod y cyfleusterau o ansawdd uchel. Cadw problemau at y dyfodol yw torri cyllid cynnal a chadw.

37. I ymdopi â'r costau hyn a'r lleihad yn y cyllid, mae'r colegau ar waith ag adolygu eu gwasanaethau i ddysgwyr, busnesau a chymunedau lleol. Maent yn chwilio am arbedion effeithlonrwydd fel cael gwared ar ddosbarthiadau aneconomaidd, cynyddu maint dosbarthiadau, chwilio am gyfleoedd i gynhyrchu incwm ychwanegol ac adolygu lefelau staffio.

38. Mae'r Tabl (trosodd) yn rhoi dadansoddiad o incwm a gwariant colegau AB yn 2011/12 (y ffigurau diweddaraf).[19]

39. Ar gyfartaledd, mae'r colegau yn ennill tua 21% yn ychwanegol at gyllid Llywodraeth Cymru.[20] Dros y deng mlynedd diwethaf, mae'r colegau wedi

---

[17] O'r 19 coleg AB oedd bryd hynny, roedd 14 coleg AB wedi gweld lleihad o 1.5%; roedd cyllidebau Coleg Harlech / Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (Gogledd), Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (De) a Choleg Cymunedol YMCA wedi'u rhewi; a gwelwyd cynnydd yn nghyllidebau dau goleg yn sgil ad-drefnu chweched dosbarth mewn ysgolion er mwyn cyfrif am y newidiadau.

[18] Mae'n ofynnol ar golegau AB i gynnal cydraddoldeb cyflog ag athrawon ysgol sydd wedi derbyn codiad cyflog o 1% yn 2013/14.

[19] Nid yw Coleg Catholig Dewi Sant, Coleg Harlech / Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (Gogledd) na Chymdeithas Addysg y Gweithwyr (De) yn derbyn cyllid dysgu seiliedig ar waith.

cynhyrchu £1 biliwn yn ychwanegol ar brisiau heddiw. Caiff yr incwm hwn ei gynhyrchu drwy gyrsiau i fusnesau lle mae'r costau yn cael eu hadennill yn llawn, cyflenwi prosiectau, gwaith ymgynghoriaeth, gwaith recriwtio yn rhyngwladol, bwytai a ffreuturau, siopau fferm, cyfleusterau hamdden a ffynonellau eraill.

## Incwm a Gwariant y Sector AB yn 2011/12

| **Incwm** | **£000** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Cyllid LlC (gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith, cyfalaf cynnal a chadw, cronfeydd ariannol wrth gefn) | 365,469 | 79.1 |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 47,499 | 10.3 |
| Incwm arall | 47,342 | 10.2 |
| Incwm buddsoddi | 1,584 | 0.3 |
| **Cyfanswm Incwm** | **461,933** | **100.0** |
| **Gwariant** | | |
| Staff | 292,931 | 64.4 |
| Treuliau gweithredu eraill | 137,172 | 30.2 |
| Dibrisiant | 22,796 | 5.0 |
| Llog i'w dalu | 1,943 | 0.4 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **454,842** | **100** |

40. Yn 2011/12 gwnaeth y colegau AB warged o ychydig dros £7m. Defnyddiwyd y gwarged hwn i fuddsoddi mewn adeiladau ac offer, gwella cyfleusterau, a sybsideiddio darpariaeth.

41. Mae gofynion cyflwr ariannol Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai colegau fod ag o leiaf un mis o wariant mewn arian parod net. Diben hyn yw bod y colegau yn gallu talu staff a biliau fel y maent yn ddyledus. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi colegau mewn pedwar categori yn ôl eu cyflwr ariannol. Mae'n rhaid i'r colegau hynny sydd yn y ddau gategori uchaf (A a B) fod â:

[20] Mae'r colegau hefyd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru am ddarparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith. Caiff y cyllid ei ddyrannu ar sail ceisiadau cystadleuol. Y cyfanswm a dderbyniwyd gan y colegau yn 2011/12 oedd £45.7m. Maent hefyd yn derbyn elfennau eraill o gyllid megis cyllid cyfalaf a chyfalaf cynnal a chadw.

*"Balans o arian parod ac adneuon banc, ar ôl tynnu dyledion cyfredol wedi'u haddasu, sy'n gyfwerth ag un mis o wariant"*[21]

42. Mae gan y colegau hynny a roddir yn y ddau fand isaf (C a D) lai nag un mis o falans mewn arian parod.

43. Cyfanswm gwariant y sector yn 2011/12 oedd £432m (heb gynnwys dibrisiant). Un rhan o ddeuddeg o £432 yw £36m. Mae angen i'r colegau, felly, fod â *lleiafswm* o £36m mewn arian parod er mwyn cyd-fynd â rheolau Llywodraeth Cymru.

44. Yn ychwanegol at hyn oll, mae swm tybiannol o £145m yn ôl Safon Adrodd Ariannol 17 sy'n cwmpasu dyledion a gwyd o gynllun pensiwn llywodraeth leol. Mae'n ofynnol ar golegau i'w cynnwys yn eu cyfrifion. Mae'n annhebygol y gofynnir i'r colegau dalu'r swm hwn oni bai eu bod yn gadael y cynllun pensiwn neu'n rhoi'r gorau i weithredu. Mae'r ffigwr tybiannol hwn yn fwy na chyfanswm yr asedau arian parod.

**Gan edrych ar ddyraniadau'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2014-15, a oes gennych unrhyw bryderon o safbwynt strategol, trosfwaol, neu ynglŷn ag unrhyw feysydd penodol?**

45. Croesawodd y colegau y cylch cyllido tair blynedd i golegau a oedd yn rhedeg o 2011/12 hyd 2013/14, er i'r dyraniadau cyllido ar gyfer trydedd flwyddyn y cylch hwnnw newid.

46. Roedd y Rhaglen Gyflenwi yn nodi y byddai Llywodraeth Cymru yn cydweithio â cholegau AB i sefydlu trefniadau cyllido tair blynedd a fyddai'n caniatáu ar gyfer gwell cynllunio strategol a dull mwy cydlynol o ddarparu cyrsiau.[22] Roedd gan y colegau yr hyder i wneud cynlluniau effeithiol a gwneud penderfyniadau mwy hirdymor er budd y dysgwyr. Yn flaenorol, byddai'r dyraniadau i bob coleg yn aml yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, gan olygu ei bod yn anodd i'r colegau gynllunio yn effeithiol. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i barhau â chylch cyllido tair blynedd pellach i ddilyn 2013/14, er y gwyddom y gall digwyddiadau allanol gael effaith ar y lefelau cyllido cyffredinol.

47. Mae'r colegau ar hyn o bryd yn tynnu i ben â thrafodaethau gyda'r cyd-undebau llafur cydnabyddedig i gyflwyno contract cyffredin. Meddai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau y dylai unrhyw gontract cyffredin newydd fod yn niwtral o ran cost i'r sector AB yn gyfan. Er mwyn i'r sector AB yng Nghymru fod yn fodern a deinamig, bydd angen contractau cyflogaeth modern a deinamig. Bydd hyn yn sicrhau swyddi ac yn gwella gwasanaethau i'r dysgwyr a rhaid iddynt chwarae rôl allweddol yn y gwaith o wella perfformiad economaidd Cymru.

48. Mae'n debygol y bydd y colegau hefyd yn wynebu costau uwch o ganlyniad i gynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr i gynllun pensiwn athrawon ac amryw

[21] *Gweithdrefnau Monitro Cyflwr Ariannol Sefydliadau AB o 1 Ionawr 2007*, Cylchlythyr 24/2006, Llywodraeth Cymru.
[22] *Ymrwymiad Rhaglen Gyflenwi 3/026*, Llywodraeth Cymru, 2011.

gynlluniau pensiwn llywodraeth leol. Yn achos cynlluniau pensiwn llywodraeth leol, gall y cyfraniadau eisoes fod yn sylweddol uwch nag 20% o gyflogau. Ochr yn ochr â hyn, mae'r tybiaethau cynllunio ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod yn cynnwys tybio cyfyngiadau parhaus ar gyflogau yn y sector cyhoeddus.

49. Croesawodd y colegau fuddsoddiad Llywodraeth Cymru o £20m y flwyddyn dros ddwy flynedd i gynyddu prentisiaethau yng Nghymru a cheisiant ymateb yn gadarnhaol i'r fenter bwysig hon. Os na chaiff y dyraniad hwn ei ymrwymo'n llawn, byddai ColegauCymru yn croesawu cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar y ffordd orau i ddefnyddio unrhyw symiau sy'n aros.

50. O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth), bydd gan y colegau fwy o hyblygrwydd ariannol yng nghyd-destun cyffredinol polisïau Llywodraeth Cymru. Dyma gam gadarnhaol sy'n cydnabod aeddfedrwydd y sector AB yng Nghymru.

51. Mae angen mawr am gyllid cyfalaf i alluogi'r colegau i sicrhau bod eu hadeiladau yn cyd-fynd â safonau'r 21ain ganrif. Cydnabyddir bod swmp y buddsoddiad yn canolbwyntio ar ysgolion ond mae'r colegau wedi cyflwyno amrywiaeth eang o gynigion uchelgeisiol am brosiectau cyfalaf y bydd angen eu hariannu yn yr hirdymor. Yn ychwanegol, y cyllid ar gyfer cyfalaf cynnal a chadw yn 2012/13 oedd £2.5m (lleihad o gymharu â'r blynyddoedd cynt). Mae'r arian hwn yn hanfodol i sicrhau bod y colegau yn cynnal a chadw eu cyfleusterau ac yn cwblhau'r atgyweiriadau sydd eu hangen.

**Pa ddisgwyliadau sydd gennych ynglŷn â chynigion cyllideb ddrafft 2014-15? Pa mor barod yn ariannol y mae eich sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15, a pha mor gadarn yw eich gallu i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod?**

52. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi gofyn i'r colegau baratoi gostyngiadau pellach yn 2014/15 o 'o leiaf 5%' – lleihad o fwy na £15m[23]. Pe câi lleihad o'r fath ei weithredu, byddai'n cael effaith andwyol ar y gwasanaethau y mae'r colegau yn eu darparu. Byddai angen i'r colegau gydbwyso'r angen iddynt gynnal cyflwr ariannol â'u hymrwymiad i wella cyfleoedd i ddysgwyr difreintiedig a chodi lefelau sgiliau, yng nghyd-destun y blaenoriaethau a osodwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Costau staff yw tua dau draean gwariant y colegau. Y mae'n anochel y byddai'r fath leihad mewn buddsoddiad yn arwain at golli swyddi.

**Beth yw eich barn ar ymagwedd Llywodraeth Cymru at wariant ataliol a sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y modd yr ydych yn dyrannu adnoddau (os yw'n briodol)? Wrth ddweud 'gwariant ataliol' rydym yn cyfeirio'n benodol at wariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac sy'n lleddfu'r galw ar wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar.**

53. Cymerodd y colegau eu camau ataliol eu hunain. Fel sydd wedi ei nodi drwy gydol y papur hwn, mae'r colegau yn parhau i wneud arbedion effeithlonrwydd. Mae 11 o gamau uno wedi digwydd neu ar y gweill ymhlith y colegau. Yn ôl

[23] Llythyr a anfonwyd i John Graystone, Prif Weithredwr ColegauCymru gan Huw Lewis AC, Gweinidog Addysg a Sgiliau, 2 Awst 2013.

arolwg gan GolegauCymru yn 2011, amcangyfrifir bod y camau uno a oedd wedi eu cymryd erbyn hynny wedi arbed £500,000 y flwyddyn fesul coleg, yn bennaf ym meysydd rheoli a swyddogaethau cefn swyddfa. Gwnaed arbedion o ryw £160,000 fesul coleg bob blwyddyn yn sgil rhannu gwasanaethau.[24]

54. Mae'r ffigurau hyn yn tynnu sylw at y manteision y gellir eu gwireddu drwy ad-drefnu seilwaith y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn effeithiol ac yn strategol – mae arbedion wedi eu gwneud, ni chollwyd swyddi, mae cyrsiau a lleoedd i ddysgwyr wedi eu hymestyn gan wario mwy o arian ar y rheng flaen, a gwnaed buddsoddiadau. Mae angen rhoi cydnabyddiaeth i sefydliadau a sectorau sy'n cofleidio newid fel hyn ac ni ddylid defnyddio penderfyniadau cyllido i'r dyfodol i gosbi sefydliadau sy'n cael eu rheoli'n effeithiol.

## Cymorth Pellach i'r Pwyllgor

55. Mae ColegauCymru yn cydnabod bod colegau yn gweithredu mewn hinsawdd ariannol anodd ac mae'r papur hwn yn tynnu sylw at rai mannau sydd o dan bwysau i'r colegau, fel yr angen i wneud arbedion effeithlonrwydd yng ngoleuni cynnydd cyllido sy'n is na chwyddiant.

56. Mae parhau i fuddsoddi mewn colegau AB yn rhoi sylfaen i adfywiad diwydiannol yng Nghymru a gweithlu medrus a chynyddol gynhyrchiol. Bydd ColegauCymru yn falch o allu darparu unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig bellach i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r gyllideb neu mewn perthynas â chyfraniad ehangach y colegau i ddyfodol economaidd neu addysgol Cymru yn gyffredinol.

[24] Colegau Addysg Bellach yng Nghymru: *Cydwasanaethau*. Papur a gyflwynwyd i Grŵp Polisi AB/AU Llywodraeth Cymru, ColegauCymru, Ionawr 2011.